Manyleb Swydd CCDG

Teitl y Swydd:	**CYNGHORYDD CYSWLLT BUSNES**
Crëwyd:	**Mehefin 2015**
Yn Adrodd i:	**Rheolwr Tîm**
Is-adran/Adran/Lleoliad:	**Lleoliad rhanbarthol**
Diben Cyffredinol y Rôl:	Adnabod, sefydlu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda rhwydwaith o gyflogwyr a'u cyrff proffesiynol i gefnogi darpariaeth gwasanaethau cyswllt cyflogwyr. Hwyluso a broceru cyfleoedd i gyflogwyr gynorthwyo'n weithredol yn narpariaeth gweithgareddau cyswllt cyflogwyr. Darganfod a datblygu cyflogwyr fel y gallant gefnogi darpariaeth gweithgareddau cyswllt cyflogwyr. Cysylltu â chyflogwyr a chydweithwyr Gyrfa Cymru i sicrhau bod yr holl wasanaethau cyswllt cyflogwyr yn gyd-gysylltiedig, wedi'u cofnodi a'u rheoli mewn modd hwylus i'r defnyddiwr, a'u bod yn amserol.
Addysg/Cymwysterau/Hyfforddiant Penodol – hanfodol	• Unai Graddedig neu safon gyfatebol megis cymwysterau proffesiynol neu tystiolaeth o brofiad o leiaf o waith cysylltu a delio â chyflogwyr • Diploma Lefel 6 FfCCh mewn Cyfarwyddyd a Datblygu Gyrfa NEU gyfatebol
Addysg/Cymwysterau/Hyfforddiant Penodol – dymunol	• Sgiliau TGCh mewn pecynnau meddalwedd perthnasol • Tystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus. • Byddai Cymraeg llafar yn ddymunol ond nid yn hanfodol a phennir hyn yn ôl anghenion yr ardal/rhanbarth. • Cymhwyster Gwaith Addysgol neu Waith Ieuenctid ar lefel gradd neu uwch • Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (IOSH)
Gwybodaeth/Sgiliau/Profiad (* = hanfodol)	• *Gallu i gyfathrebu gyda phartneriaid mewn amrywiaeth o sectorau ac ennill eu hyder. • *Gallu profedig i adeiladu a chynnal perthnasoedd cydweithrediadol â phartneriaid a rhanddeiliaid.

	• Gwybodaeth a dealltwriaeth o bolisïau a blaenoriaethau'r llywodraeth a sefydliadau eraill mewn perthynas â chyflogaeth, addysg a hyfforddiant • *Hanes o ddarparu gwelliannau sylweddol mewn gwasanaeth ar gyfer cleientiaid a chwsmeriaid • *Sgiliau cyfathrebu llafar, ysgrifenedig a rhyngbersonol gwych wrth gyfathrebu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol ac ennill eu hyder. • Gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau rheoli swyddi gwag Gyrfa Cymru, gyrfacymru.com, y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau. • Gwybodaeth a dealltwriaeth o wasanaethau Gyrfa Cymru ar gyfer pobl ifanc sy'n chwilio am gyflogaeth, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu pellach. • Dealltwriaeth gyffredinol o'r agenda NEET • Dealltwriaeth o weithio mewn lleoliad addysg. • *Sgiliau TG a gweinyddu gwych. • *Gallu i roi cyflwyniadau i grwpiau o gyflogwyr, cynrychiolwyr sectorau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, pobl ifanc a chydweithwyr Gyrfa Cymru. • *Gallu i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid gwych. • *Gallu i amgyffred a dadansoddi gwybodaeth yn gyflym ac yn gywir, gan dynnu sylw at feysydd pryder lle bo hynny'n briodol. • Dealltwriaeth ddangosadwy o gyfle cyfartal, gan gynnwys materion a chysyniadau o ran gweithio mewn cymdeithas ddwyieithog. • Gallu i asesu anghenion hyfforddiant cyflogwyr a darparu pecynnau hyfforddiant i fodloni'r anghenion hynny. • Bydd yn ofynnol i chi deithio o fewn Cymru er mwyn cyflawni eich dyletswyddau a/neu fynychu digwyddiadau dysgu a datblygiad. Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod gennych drefniadau teithio digonol i'ch galluogi i gyflawni eich dyletswyddau a/neu i fynychu digwyddiadau dysgu a datblygiad. Yn achlysurol, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i chi deithio o fewn y DU er mwyn cyflawni eich dyletswyddau a/neu fynychu digwyddiadau dysgu a datblygiad, ac os felly, bydd y cyflogwr yn cynorthwyo â threfniadau teithio.
Nodweddion Ymddygiad	**Galluoedd:**

	• Dylanwadu (cyd-drafod, darbwyllo, ysgogi), • hyblygrwydd, • cynllunio a threfnu, • ymwybyddiaeth fasnachol, • ymwybyddiaeth o gystadleuwyr, • gallu i ddysgu a datblygu ***Priodweddau Personol:*** • parodrwydd i wasanaethu, • canolbwyntio ar gyflawni • gallu i adeiladu perthnasoedd • pendantrwydd, • ymwybyddiaeth o fanylion, • hunanddibyniaeth
Mewnbynnau Allweddol:	**Deilliannau Allweddol:-**
1. Darparu gwasanaeth proffesiynol i gyflogwyr a rhanddeiliaid eraill, adeiladu perthnasoedd gwaith da ac annog ymgysylltiad â gwasanaethau Gyrfa Cymru.	1.1 Cysylltu ac ymweld â chyflogwyr i annog cefnogaeth ar gyfer darpariaeth gwasanaethau Gyrfa Cymru gan gynnwys Ysgogwch neu brosiectau eraill. 1.2 Cysylltu ac ymweld â chyflogwyr i sefydlu diddordeb cyflogwyr, eu meysydd arbenigedd ac i asesu'r lefel a'r math o gysylltiad mwyaf priodol ar eu cyfer. Caiff y gefnogaeth ei disgrifio, ei chofnodi a'i logio yn erbyn prosiectau priodol fel sy'n berthnasol. 1.3 Adnabod anghenion hyfforddiant cyflogwr a darparu hyfforddiant/gweithgareddau priodol i fodloni'r anghenion hyn mewn perthynas â darparu sesiynau mewn addysg. 1.4 Cysylltu ac ymweld â chyflogwyr er mwyn darparu gwybodaeth am gyflogi pobl ifanc, cymwysterau, cyllid, a mentrau perthnasol sydd ar gael i gyflogwyr. 1.5 Cynrychioli'r Cwmni mewn digwyddiadau busnes, ffeiriau swyddi, digwyddiadau sgiliau a fforymau cyflogwyr eraill er mwyn hyrwyddo gwasanaethau Gyrfa Cymru gan gynnwys Ysgogwch a phrosiectau eraill.

2. Cyflwyno cyfleoedd i bobl ifanc mewn sefydliadau addysgol weithio gyda chyflogwyr er mwyn ehangu eu hymwybyddiaeth ddiwydiannol a masnachol ac i wella profiadau a chyfleoedd byd gwaith.	2.1 Sefydlir rhwydwaith o gyflogwyr wedi'i rymuso i gefnogi ysgolion yn narpariaeth gwasanaethau Gyrfa Cymru. 2.2 Cyflwynir cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu hymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion sgiliau cyflogwyr a chyfleoedd gyrfa posibl sy'n cydweddu â blaenoriaethau sgiliau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
3. Dod o hyd i Wybodaeth am y Farchnad Lafur yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol sy'n gyfredol ac yn berthnasol, er mwyn sicrhau perthnasedd y cyfleoedd a gynigir trwy wasanaethau Gyrfa Cymru.	3.1 Adroddir ar wybodaeth am y farchnad lafur yn lleol a diweddarir gweithwyr Gyrfa Cymru ynghylch tueddiadau, datblygiadau a swyddi gwag. 3.2 Caiff gwybodaeth am y farchnad lafur a gwybodaeth gan gyflogwyr ei hadolygu, ei dadansoddi a'i hadrodd er mwyn llunio deunydd clir a chryno ar gyfer ei gynnwys mewn cyfathrebiadau â chydweithwyr. 3.3 Cynhelir cofnodion cywir am gyflogwyr ar systemau'r Cwmni er mwyn galluogi rheolaeth effeithiol o gyfrifon cyflogwyr (rheoli perthnasoedd).
4. Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a'r sgiliau cyflogadwyedd sydd eu hangen ar gyflogwyr trwy gyflwyniadau a sesiynau hyfforddiant	4.1 Darperir sesiynau cyflogadwyedd, yn bennaf ar gyfer cleientiaid mewn grwpiau targed a, lle bo hynny'n briodol, ar gyfer cydweithwyr a phartneriaid Gyrfa Cymru. 4.2 Anogir cyflogwyr i gymryd rhan mewn a chefnogi darpariaeth sesiynau grŵp ar gyflogadwyedd ar gyfer cleientiaid. 4.3 Cynllunnir a darperir adnoddau hyfforddiant priodol a fydd yn cynorthwyo cyflogwyr i adnabod cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â sefydliadau addysgol.
Datganiad Iechyd a Diogelwch	Mae gan bob gweithiwr gyfrifoldeb o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i: ▪ Gydymffurfio â'r Polisi Iechyd a Diogelwch, y Cynllun Rheoli Iechyd a Diogelwch a phob arfer gweithio diogel y cwmni ▪ Sicrhau eu diogelwch eu hunain a phobl eraill yn y gweithle

	▪ Adrodd ar unwaith i'w rheolwr llinell ar unrhyw gyflwr anniogel, digwyddiad peryglus neu anaf ▪ Sicrhau eu bod yn gallu gwneud unrhyw waith y maent yn ymgymryd ag ef yn gymwys ac yn ddiogel ▪ Cydweithio â'r Cwmni ar bob mater yn ymwneud ag iechyd a diogelwch
Datganiad Diogelwch Plant ac Oedolion Agored i Niwed	Mae'r Cwmni wedi'i ymrwymo i ddiogelu a hybu lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed ac mae'n disgwyl i bob gweithiwr ddangos yr ymrwymiad hwn. Mae angen gwiriad datgelu